Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Swyddog Myfyrwyr Hŷn

## Y Rôl:

Etholir Swyddog Myfyrwyr Hŷn i gynrychioli buddiannau myfyrwyr hŷn. Mae'n rôl wirfoddol, a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Bydd pob swyddog etholedig yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni eu rôl, felly nid oes angen profiad blaenorol.

Bydd y Swyddog Myfyrwyr Hŷn yn:

- Cynrychioli pob myfyriwr hŷn
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli
- Lobio dros newidiadau ar draws y brifysgol
- Cynllunio a chynnal ymgyrchoedd
- Gwasanaethu fel llywydd Rhwydwaith y Myfyrwyr Hŷn
- Ymgysylltu â phrosesau democrataidd Undeb y Myfyrwyr
- Mynychu cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr a chysylltu'n rheolaidd â staff allweddol

| Sgiliau y byddwch yn eu datblygu: | Cyfleoedd a manteision: |
|---|---|
| • Arweinyddiaeth<br>• Cyfathrebu<br>• Sgiliau trefnu<br>• Sgiliau rhyngbersonol a gwrando gweithredol<br>• Lobïo<br>• Gwaith tîm<br>• Profiad o gynllunio prosiectau<br>• Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd | • Hyfforddiant mewnol gan yr UM<br>• Cefnogaeth a mentora gan staff Undeb y Myfyrwyr<br>• Rhywbeth gwych i'w roi ar eich CV<br>• Cwrdd â phobl newydd<br>• Dod yn fwy cysylltiedig ag Undeb y Myfyrwyr<br>• Cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad myfyrwyr |

## Cymhwysedd:

I fod yn gymwys i sefyll am y rôl hon, rhaid i chi fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd, ac yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd am gyfnod y rôl (o 1af Gorffennaf 2026 i 1af Gorffennaf 2027).

Mae yna hefyd feini prawf cymhwysedd ychwanegol ar gyfer y rôl hon. I fod yn gymwys i sefyll am y rôl hon, rhaid i chi fod yn fyfyriwr a oedd naill ai'n 21 oed a throsodd ar ddechrau eich gradd israddedig, neu'n 25 oed a throsodd ar ddechrau eich gradd ôl-raddedig. Bydd y gofyniad hwn yn cael ei wirio gan y Tîm Etholiadau trwy Gofnodion/Data Myfyrwyr.

## Disgwyliadau:

Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddangos digon o ymgysylltiad â'r rôl. Gofynnir i Swyddogion Ymgyrch wirio eu negeseuon e-bost yn rheolaidd a chyfathrebu â ni a bod yn frwdfrydig tuag at y rôl. Yn ogystal, mae set o ofynion y disgwylir i Swyddogion Ymgyrch eu cwblhau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys, ond efallai heb fod yn gyfyngedig i:

- Mynychu hyfforddiant gydag Undeb y Myfyrwyr
- Mynychu Senedd y Myfyrwyr
- Darparu diweddariadau atebolrwydd yn Senedd y Myfyrwyr
- Darparu diweddariadau atebolrwydd ychwanegol drwy gydol y flwyddyn
- Mynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol y Swyddogion
- Cynnal etholiadau rhwydwaith
- Cynnal ymgyrch unigol

**Sut i enwebu:**

Enwebwch eich hun yma.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Undeb y Myfyrwyr yma.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar elections@cardiff.ac.uk.